



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

DOGFEN POLISIÄU A GWEITHDREFNAU CORFFORAETHOL

AR

GAFFAEL DATA CYFATHREBU O DAN

DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU

YMCHWILIO 2000

Christopher B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol,
Y Pafiliynau,
Parc Hen Lofa'r Cambrian,
Cwm Clydach
Tonypandy

Derbyniwyd 10 Mawrth 2008

Diwygiwyd Awst 2008, Rhagfyr 2010, Chwefror 2013, Medi 2014 a Mehefin 2015

CYNNWYS

	Tudalen
Cyflwyniad a Negeseuon Allweddol	3
Dyddiad Gweithredu a Chyfrifoldebau Swyddogion Awdurdodi	4
Gwybodaeth Gyffredinol ynglŷn â Chaffael Data Cyfathrebu	5
- Cyflwyniad	
- Beth yw Data Cyfathrebu a pha gategorïau sydd yna?	
- Data Cyfathrebu mae modd eu caffael	
- Cyflwyno Cais am Ddata Cyfathrebu	
- Swyddogaeth y Swyddog Un Man Cyswllt	
- Gwallau	
- Cofnod Canolog	
- Cod Ymarfer	

Ffurflenni:

CD5	Ffurflen Rhoi Gwybod am Wall	23
JA1	Cymeradwyaeth Farnwrol – Ffurflen Gais	24
JA2	Ffurflen Cymeradwyaeth Farnwrol	25

Cyflwyniad a Negeseuon Allweddol

1. Mae'r Ddogfen Polisiâu a Gweithdrefnau Corfforaethol yma'n seiliedig ar ofynion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio') a Chod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Gaffael a Datgelu Data Cyfathrebu. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn cael eu gwella'n barhaus.
2. Y sefyllfa awdurdodol ar y Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yw, wrth gwrs, y Ddeddf ei hun a Chodau Ymarfer cysylltiedig y Swyddfa Gartref ac fe ddylai unrhyw Swyddog sy'n ansicr am unrhyw agwedd ar y Ddogfen yma gysylltu â'r Uwch Swyddog sy'n gyfrifol am gyngor a chymorth cyn gynted â phosibl.
Bydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn trefnu bod Swyddogion Awdurdodi perthnasol ac uwch reolwyr eraill yn derbyn hyfforddiant ac yn cael cyfleoedd datblygu priodol.
3. Bydd copiâu o'r ddogfen yma a'r ffurflenni cysylltiedig ar gael i'r staff ar eu mewnrwyd.
4. Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol wedi awdurdodi Swyddog Arweiniol y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio a Chyrchu Data Cyfathrebu i gynnal Cofrestr Gorfforaethol o'r holl ffurflenni data cyfathrebu, ond bydd y gofrestr yma'n destun archwiliad gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol pan fydd angen hynny. Cyfrifoldeb y Swyddog Awdurdodi perthnasol fodd bynnag yw sicrhau bod y Swyddog Arweiniol yn derbyn copi o'r ffurflenni perthnasol cyn gynted ag sy'n ymarferol.
5. Mae'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio a'r ddogfen yma'n bwysig ar gyfer gweithrediadau effeithiol ac effeithlon y Cyngor o ran caffael data cyfathrebu. I'r perwyl yma, bydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn adolygu'r ddogfen yma'n barhaus. Dylai Swyddogion Awdurdodi awgrymu unrhyw welliannau i'r ddogfen yma i'r Uwch Swyddog Cyfrifol cyn gynted â phosibl.
6. Os ydych chi'n ansicr ynghylch y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, y ddogfen yma neu'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol, cysylltwch â'r Uwch Swyddog Cyfrifol cyn gynted â phosibl.

Dyddiad Gweithredu a Chyfrifoldebau Swyddogion Awdurdodi

1. Daeth y Polisi Corfforaethol, y Gweithdrefnau a'r Ffurflenni sydd yn rhan o'r Ddogfen yma'n weithredol ar y dyddiad y'u derbyniwyd gan y Cyngor, hynny yw, 10 Mawrth 2008. Ar ôl eu mabwysiadu fydd Ffurflenni eraill ddim yn cael eu caniatáu. Mae'n hanfodol, felly, bod Prif Swyddogion a Swyddogion Awdurdodi yn eu His-adrannau yn cymryd cyfrifoldeb personol dros weithredu'r Ddogfen yma yn effeithiol ac yn effeithlon.
2. Mae Prif Swyddogion wedi penodi Swyddogion Awdurdodi o fewn yr is-adrannau priodol i weithredu o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio. Mae manylion y Swyddogion Awdurdodi i'w gweld yn y Ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Corfforaethol ar y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio. Bydd hawl gyda nhw i weithredu fel Personau Dynodedig ar gyfer caffael data cyfathrebu.
3. Bydd Swyddogion Awdurdodi hefyd yn sicrhau bod staff sy'n ateb iddyn nhw yn dilyn y Ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Corfforaethol yma ac nad ydyn nhw'n caffael data cyfathrebu heb gael yr awdurdodiadau perthnasol yn gyntaf, yn unol â'r Ddogfen yma.
4. Wrth anfon copïau o unrhyw Ffurflenni at yr Uwch Swyddog Cyfrifol (neu unrhyw awdurdod perthnasol arall), rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod nhw'n cael eu hanfon mewn amlen wedi'i selio a'i marcio 'Yn Gwbl Breifat a Chyfrinachol'.

CAFFAEL DATA CYFATHREBU

Cyflwyniad

Mae Rhan 1 Pennod 2 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn rheoli caffael data cyfathrebu gan staff yr Awdurdod Lleol. Dydy data cyfathrebu ddim yn cynnwys y cyfathrebiadau megis y neges e-bost, y llythyr neu'r testun, neu gynnwys yr alwad ffôn.

Mae Rhan I yn cyflwyno fframwaith statudol i reoleiddio mynediad at ddata cyfathrebu gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gyson â Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n egluro'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n cael eu gosod ar bob parti sy'n rhan o'r prosesau yma ac yn creu system o fesurau diogelu, sy'n adlewyrchu gofynion Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, er mwyn cydbwysu hawliau'r unigolyn yn erbyn anghenion cymdeithas yn ei chyfanrwydd i gael ei diogelu rhag trosedd a risgiau diogelwch cyhoeddus eraill.

Bydd caffael data cyfathrebu o dan y Ddeddf yn ymyrraeth gyfiawnadwy â hawliau dynol unigolyn o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol dim ond os yw'r gweithrediad sy'n cael ei awdurdodi (neu y mae'n ofynnol iddo ddigwydd) yn angenrheidiol ac yn gymesur ac yn unol â'r gyfraith.

O ganlyniad, ddylai swyddogion ddim gofyn i (neu wahodd) unrhyw weithredwr post neu delathrebu i ddatgelu data cyfathrebu naill ai drwy ddefnyddio pwerau statudol eraill neu drwy arfer unrhyw eithriad i'r egwyddor o beidio â datgelu o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Dim ond os yw'r pŵer yn darparu'n benodol ar gyfer caffael data cyfathrebu y mae modd defnyddio pŵer statudol o'r fath.

Beth yw Data Cyfathrebu a pha gategoriâu sydd yna?

Mae data cyfathrebu yn golygu unrhyw draffig neu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei hanfon neu sydd wedi'i hanfon dros system delathrebu neu system bost, ynghyd â gwybodaeth am ddefnydd unrhyw berson o'r system. I bob pwrpas, mae'r term data cyfathrebu yn ymdrin â gwybodaeth am y cyfathrebiad ("pwy, pryd a ble") ac nid am y cynnwys, hynny yw, yr hyn a gafodd ei ddweud neu'i ysgrifennu. Gall gynnwys y cyfeiriad ar amlen, amser a hyd y cyfathrebiad, rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost y gwreiddiolwr a'r derbynydd, ymdrechion galwadau heb eu hateb a lleoliad y cyfathrebu.

Mae'n cynnwys y modd y mae person (neu beiriant) yn cyfathrebu â pherson arall (neu beiriant), ac ym mha ffordd, ond dyw e ddim yn cynnwys yr hyn sy'n cael ei ddweud na'r data sy'n cael eu trosglwyddo, sy'n cynnwys testun, sain a fideo. Mae'r cynnwys yn dod o dan ddeddfwriaeth Codi Cyfathrebiadau.

Mae gweithredwr sy'n darparu gwasanaeth post neu delathrebu yn cael ei ddisgrifio fel Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu.

Mae Adran 4 o Ddeddf Cadw Data a Phwerau Ymchwilio 2014 yn egluro bod pwerau mynediad data o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn arferadwy o ran Darparwyr Gwasanaeth Cyfathrebu sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ond sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y DU. Dim ond yn unol â'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (neu orchymyn llys) y bydd modd caffael data a gedwir o dan hysbysiad cadw data o dan Adran 1 o'r Ddeddf Cadw Data.

Mae'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn diffinio data cyfathrebu mewn tri chategori bras:-

(a) Adran 21(4)(c) Gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth cyfathrebu

Mae'r categori yma'n wybodaeth sy'n cael ei chadw neu sydd wedi'i chaffael gan Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebu am bersonau y mae gwasanaethau cyfathrebu yn cael eu darparu ar eu cyfer nhw. Yn bennaf, mae'n cynnwys cofnodion personol sydd wedi'u rhoi i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu gan y cwsmer/tanysgrifiwr. Er enghraifft, enw, cyfeiriad, dull talu, rhif cyswllt ac ati.

(b) **Adran 21(4)(b) Gwybodaeth am y defnydd o wasanaethau cyfathrebu**

Mae'r categori yma'n ddata sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir gan berson o wasanaeth cyfathrebu. Yn bennaf mae'n cynnwys data bob dydd sydd wedi'u casglu gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu sy'n ymwneud â defnydd y cwsmer o'u system gyfathrebu ac a fyddai ar gael fel mater o drefn i'r cwsmer. Er enghraifft, manylion y dyddiadau a'r amseroedd y maen nhw wedi gwneud galwadau a pha rifau ffôn y maen nhw wedi eu galw.

(c) **Adran 21(4)(a) Gwybodaeth am ddata cyfathrebu (data traffig)**

Mae'r categori yma'n ddata sydd wedi'u cynnwys neu wedi eu cysylltu â chyfathrebiad at ddiben ei drosglwyddo. Yn bennaf, mae'n cynnwys data sy'n cael eu cynhyrchu gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu (data rhwydwaith) sy'n ymwneud â defnydd cwsmer o'i system gyfathrebu (na fydd y cwsmer efallai'n effro iddo), er enghraifft, data safle celloedd a gwybodaeth am lwybrau.

Data Cyfathrebu Data mae modd eu caffael

Mae'r mathau o wybodaeth y caniateir i ni gael gafael arny'n nhw gan Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn perthyn i un o ddau gategori.

Gwybodaeth am Danysgrifwyr (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio A 21(4)(c)) – Gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu

- Enw'r cwsmer sy'n tanysgrifio i rif ffôn, cyfrif e-bost, rhif Blwch Post, stamp postio rhagdaledig, neu sydd â hawl i bostio i ofod gwe;
- Gwybodaeth am gyfrifon, er enghraifft, cyfeiriad ar gyfer bilio, dosbarthu neu osod;
- Gwybodaeth am gyfrif y tanysgrifwyr megis trefniadau talu biliau, gan gynnwys manylion taliadau a manylion cerdyn banc neu gredyd/debyd;
- Gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau blaenyrru ac ailgyfeirio;
- Gwybodaeth am gysylltu, datgysylltu ac ailgysylltu gwasanaethau y mae'r cwsmer yn tanysgrifio iddyn nhw, gan gynnwys gwasanaethau galwadau cynadledda, galwadau ar gyfer anfon negeseuon, galwadau sy'n aros a gwahardd galwadau;
- Gwybodaeth sy'n cael ei rhoi gan y tanysgrifiwr i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu megis gwybodaeth ddemograffig neu ddata cofrestru (heblaw cyfrineiriau) megis rhifau ffôn cyswllt;
- Gwybodaeth am ffonau neu ddyfeisiau eraill sy'n cael ei rhoi gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu i'r tanysgrifiwr a'r codau cysylltiedig, gan gynnwys gwneuthurwr a model, Allweddi Datgloi Personol ar gyfer ffonau symudol a rhifau cyfresol;
- Gwybodaeth y mae'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn dewis ei chasglu am y ddyfais sy'n cael ei defnyddio gan y cwsmer.

Data Defnyddio'r Gwasanaeth (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio A 22(4)(b)) – Gwybodaeth am y defnydd o wasanaethau cyfathrebu

- Cyfnodau pan ddefnyddiodd y cwsmer y gwasanaeth;
- Gweithrediadau sy'n cynnwys cofnodion manwl o rifau ffôn sydd wedi'u galw, cysylltiadau rhyngwyd, dyddiadau ac amseroedd galwadau, hyd galwadau, negeseuon testun sydd wedi'u hanfon a swm y data sydd wedi'u huwchlwyrtho neu'u lawrlwyrtho.
- Gwybodaeth am y defnydd o wasanaethau anfon ymlaen ac ailgyfeirio;

- Gwybodaeth am y defnydd o wasanaethau galwadau cynadledda, galwadau ar gyfer anfon negeseuon, galwadau sy'n aros a gwahardd galwadau;
- Gwybodaeth am ddewis rhifau ffafriol neu alwadau disgownt;
- Cofnodion o eitemau post, megis cofnodion o eitemau post cofrestredig, cofnodedig neu arbennig, a chofnodion o anfon, dosbarthu a chasglu parseli;
- Manylion talu ar gyfer ffonau symudol 'talu ymlaen llaw' gan gynnwys manylion cerdyn credyd/debyd, manylion talebau / e-dalu.

Data traffig (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio A 22 (4)(a) – Gwybodaeth am y cyfathrebiadau eu hunain

D.S. Does DIM hawl gyda ni i gyrchu data traffig

Mae data traffig yn cynnwys

- Gwybodaeth sy'n adnabod anfonwr a derbynnydd cyfathrebiad (o ddata o fewn y cyfathrebiad);
- Gwybodaeth yn olrhain tarddiad neu gyrchfan cyfathrebiad gan gynnwys cofnodion am alwadau sy'n cael eu derbyn;
- Gwybodaeth sy'n adnabod lleoliad unrhyw gyfarpar sy'n cyfathrebu, megis lleoliad safle cell ffôn symudol;
- Gwybodaeth am bori'r we megis y gwefannau yr ymwelwyd â nhw (yn hytrach na'r tudalennau penodol yn y wefan honno) neu'r gweinyddwyr a ddefnyddiwyd;
- Gwybodaeth am lwybrau sy'n adnabod yr offer sydd wedi'i ddefnyddio i drosglwyddo'r cyfathrebiad (e.e. cyfeiriadau Darparwyr Rhyngwyd deinamig, cofnodion trosglwyddo ffeiliau a phenawdau e-bost);
- Cyfeiriadau neu farciau, gan gynnwys yr anfonwr neu'r derbynnydd, wedi'u hysgrifennu ar eitem sy'n cael ei hanfon (megis llythyr neu barseil), sy'n dangos llwybr postio'r eitem;
- Tracio cyfathrebiadau megis eitemau post ar-lein.

D.S. Dim ond at ddibenion atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn y caniateir i staff Awdurdodau Lleol gaffael a datgelu data cyfathrebu. Dim ond mewn perthynas â throseddau neu weithrediadau penodol (ac yn aml yn arbenigol) y dylai'r Cyngor ddefnyddio'r swyddogaeth statudol i ymchwilio.

Mewn ymchwiliad ar y cyd rhwng y Cyngor ac awdurdod gorfodi arall, megis yr heddlu, gall y naill awdurdod neu'r llall, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur, gaffael unrhyw ddata cyfathrebu o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio i symud yr ymchwiliad ar y cyd yn ei flaen.

Mae gwybodaeth Swyddogion Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn ddefnyddiol iawn. Am hynny, dylai'r swyddogion yma gael eu defnyddio i gael cyngor ac arweiniad. Mae trafodaeth o'r fath yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd yr Ymgeisydd yn ansicr o gategori'r data y mae'n chwilio amdany'n nhw, neu os yw'r Ymgeisydd eisiau gwybod rhagor am ba wybodaeth ychwanegol y gall y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu ei chadw. Serch hynny, y Person Dynodedig sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â pha wybodaeth i'w chaffael.

Mae dau bŵer wedi'u rhoi gan A22 o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio mewn perthynas â chaffael Data Cyfathrebu gan gwmnïau telathrebu a phost ("Darparwyr Gwasanaeth Cyfathrebu").

Er mwyn gorfodi Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu i gaffael a datgelu (neu ddatgelu yn unig) data cyfathrebu sydd yn ei feddiant, rhaid cyflwyno hysbysiad o dan A22(4) o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio. Yr unig resymau dros ganiatáu i Awdurdod Lleol gyflwyno hysbysiad A22 yw i "atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn". Mae'n debygol mai cyflwyno hysbysiad o'r fath yw'r prif bŵer y byddwn ni'n ei ddefnyddio, o dan yr amgylchiadau hynny lle mae Swyddog Un Man Cyswllt y Cyngor yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu.

Yn ogystal â hynny, mae A22 (3) yn nodi y gall Person Dynodedig awdurdodi person arall o fewn yr un awdurdod cyhoeddus perthnasol i ymgymryd â gweithrediad penodol i gasglu'r data. Mae hyn yn caniatáu i'r awdurdod lleol gasglu'r data cyfathrebu ei hunan, e.e. os yw Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn methu â chasglu'r data yn dechnegol, byddai awdurdodiad o dan yr adran yma'n caniatáu i'r awdurdod lleol gasglu'r data cyfathrebu ei hunan. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd os oes cytundeb ar waith rhwng awdurdod cyhoeddus a Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu sy'n ymwneud â mecanweithiau priodol ar gyfer datgelu data cyfathrebu yn uniongyrchol i'r awdurdod. Mae'r awdurdodiad yn disgrifio'r gweithrediad sydd wedi'i awdurdodi ac yn disgrifio'r data cyfathrebu sydd i'w caffael gan y gweithrediad hwnnw. Lle mae Swyddog Un Man Cyswllt wedi'i awdurdodi i gael manylion tanysgrifwyr ond wedyn yn dod i'r casgliad bod y data yn cael eu cadw gan Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebu nad oes modd eu caffael yn uniongyrchol oddi wrtho, yn hytrach na chael hysbysiad, gall y Swyddog Un Man Cyswllt roi manylion y caniatâd yma i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu er mwyn ceisio datgelu'r data gofynnol.

Serch hynny, mae'n gymharol annhebygol y bydd y Cyngor yn cyhoeddi unrhyw awdurdodiadau yn uniongyrchol ei hunan, gan y bydd gan y rhan fwyaf o'r Darparwyr Gwasanaeth Cyfathrebu ddigon o adnoddau ar waith i'w galluogi i gasglu'r wybodaeth yn dilyn cyflwyno Hysbysiad A22 (4). Serch hynny, efallai y bydd angen i'r Cyngor roi awdurdodiadau wrth ddefnyddio'r broses symleiddio i ehangu'r broses o gasglu data wrth geisio adnabod defnyddiwr ffôn symudol 'tal ymlaen llaw'. Ar y llaw arall, pan fyddan nhw'n gweithredu ar ein rhan, mae'r Swyddogion Un Man Cyswllt ar gyfer y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol fel arfer yn gweithredu drwy'r broses awdurdodi oherwydd nad oes modd iddyn nhw gaffael y data eu hunain drwy chwilio cronfeydd data'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn uniongyrchol.

Sut i gaffael Data Cyfathrebu

Erbyn hyn dim ond un dull y gall swyddogion ei ddefnyddio i gaffael data cyfathrebu. Gwneir hyn trwy wefan ddiogel y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol. I ddefnyddio'r system yma, rhaid i Ymgeiswyr gofrestru ar wefan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ('Y Rhwydwaith') yn unigol www.nafn.gov.uk. Ar ôl cofrestru, bydd yr Ymgeisydd yn cwblhau'r ffurflen gais ar-lein sydd yna'n cael ei chyflwyno'n electronig i un o Swyddogion Un Man Cyswllt y Rhwydwaith. Mae Swyddogion Un Man Cyswllt y Rhwydwaith yn darparu gwasanaeth annibynnol i archwilio'r ceisiadau. Mae hi'n bwysig bod yr Ymgeisydd yn ymgynghori â Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith drwy gydol y broses awdurdodi. Bydd y Swyddog yma'n rhoi gwybod i'r Ymgeisydd os oes angen newid y ffurflen gais mewn unrhyw ffordd. Ar ôl i'r Swyddog benderfynu bod y cais yn foddhaol, bydd y Person Dynodedig wedyn yn derbyn neges e-bost i ddweud bod ffurflen gais ar y wefan iddo ef neu iddi hi roi ystyriaeth iddi. Mae'r Person Dynodedig yn llenwi'r rhan berthnasol o'r ffurflen i roi ei benderfyniad. Yna, mae Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn defnyddio'r broses awdurdodi i gaffael y data cyfathrebu gofynnol o gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu ac mae'r data'n cael eu cyhoeddi ar y wefan fel mai dim ond yr Ymgeisydd all eu cyrchu. Os nad oes gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol fynediad uniongyrchol at gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu perthnasol bydd ei Swyddog yn anfon hysbysiad at y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn y ffordd arferol.

Mae defnyddio dull gwe'r Rhwydwaith â manteision sylweddol o gymharu â defnyddio dull Swyddog Un Man Cyswllt blaenorol y Cyngor, oherwydd a) bod y broses ar gyfer caffael data cyfathrebu yn gyflymach, b) bod y costau sy'n cael eu codi gan y Darparwyr Gwasanaeth Cyfathrebu ar gyfer darparu data llawer yn is wrth ddefnyddio'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol, c) bod hyn yn sicrhau cysondeb ar draws yr holl Personau Dynodedig ac Awdurdodau Lleol wrth gaffael data cyfathrebu.

O ganlyniad, o fis Rhagfyr 2010 ymlaen, bydd disgwyl i Ymgeiswyr ddefnyddio gwefan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ar gyfer pob cais am ddata cyfathrebu. O weithredu polisi Medi 2014 fyddwn ni ddim bellach yn cael defnyddio'r system bapur.

Cyflwyno Cais am Ddata Cyfathrebu

Fel sy'n wir am faterion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio eraill, rhaid i'r swyddog ymchwilio sydd angen caffael data cyfathrebu (yr Ymgeisydd) lenwi ffurflen gais. Dyma 'ffurflen ar-lein' y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol. Mae'r ffurflenni ar-lein yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r swyddog lenwi datganiad cyn cyflwyno'r ffurflen i'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol.

Ar y ffurflen yma, rhaid i'r Ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth yma:

- Enw a swydd yr Ymgeisydd;
- Cyfeirnod unigryw a, lle y bo'n berthnasol, enw'r gweithrediad;
- Pwrpas caffael y data – dim ond at ddibenion atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn y mae modd gwneud hyn;
- Manylion y data cyfathrebu sydd eu hangen;
- Nodi a yw'r data cyfathrebu yn ymwneud â dioddefwr, tyst, achwynydd, person agored i niwed neu berson arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad;
- Cyfnod amser y mae angen y data ar ei gyfer, gan gynnwys data hanesyddol neu ddata ar gyfer y dyfodol;
- Pam mae angen cael gafael ar y data, gan gynnwys ffynhonnell y cyfeiriad data cyfathrebu a'r hyn y disgwylir ei gyflawni o gaffael y data;
- Pam mae'n gymesur caffael y data, gan gynnwys pam mae'r ymyrraeth o fantais i'r ymchwiliad ac a fydd modd cyfiawnhau lefel yr ymyrraeth yn erbyn hawl yr unigolyn i breifatrwydd;
- Manylion ynglŷn ag a oes ymyrraeth eilaidd ystyrlon a pham mae modd cyfiawnhau'r ymyrraeth honno;
- Ystyried a disgrifio unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl o'r cais
- Erbyn pryd mae angen y data.

Erbyn pryd mae angen y data – rhaid i hyn fod yn y categori Gradd 3 (hynny yw, "arferol nad yw ar frys") – oni bai fod bywyd mewn perygl;

- Mae'r ymgeisydd hefyd yn cadarnhau y bydd ef neu hi'n ymrwmo i hysbysu'r Swyddog o unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sydd ddim bellach yn cyfiawnhau caffael y data.

Mae'n arfer da i'r Ymgeisydd nodi ar y Ffurflen Gais a yw wedi cynnal unrhyw wiriadau ffynhonnell agored ar y rhifau ffôn neu gyfeiriadau cyfathrebu eraill sy'n destun ymchwiliad, gan fod hyn yn helpu i gyfiawnhau egwyddor cymesuredd.

Mae gan yr Ymgeisydd hawl i ofyn am ddata hanesyddol neu am ddata ar gyfer y dyfodol. Rhaid i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu ddarparu manylion (er enghraifft) am yr holl gysylltiadau ffôn neu ryngrwyd ymadawol dros gyfnod penodol yn y dyfodol ar gyfer cyfnod hyd at fis o hyd. Mae ceisiadau am ddata o'r fath ar gyfer y dyfodol yn cael eu hystyried yn fwy ymwithiol na cheisiadau am ddata hanesyddol.

Yna caiff y ffurflen ei throsglwyddo'n electronig i Swyddog Un Man Cyswllt achrededig priodol y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ar gyfer Cyrchu Data Cyfathrebu.

Gall fod yn briodol cael data defnydd gwasanaeth ar yr un pryd â chael gwybodaeth am danysgrifwyr, er enghraifft pan fydd y person sy'n destun yr ymchwiliad yn cael ei adnabod o gudd-wybodaeth gradd uchel i fod yn defnyddio rhif neu wasanaeth penodol neu pan fydd ffôn

symudol yn cael ei atafaelu'n gyfreithlon. Bydd modd cynnwys cais am wybodaeth tanysgrifiwr mewn cais am ddata defnydd gwasanaeth.

Dylid trin data cyfathrebu fel gwybodaeth gyda'r dosbarthiad SWYDDOGOL a'r cafeat SENSITIF. Mae'r cafeat sensitif ar gyfer gwybodaeth sy'n destun rheolaethau 'angen gwybod' fel mai dim ond personau awdurdodedig all gael mynediad ato. (Dydy hyn ddim yn atal datgelu deunydd yn gyfreithlon pan fo angen.) Mae hyn yn ei gwneud yn glir bod rhaid trin yr wybodaeth yn ofalus a rhaid ei storio a'i thrin yn unol â'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Diogelu Data.

Data sy'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol penodol

Dydy data cyfathrebu ddim yn destun unrhyw ffurf ar faint broffesiynol, gan nad yw'r ffaith bod cyfathrebu wedi digwydd yn datgelu ei gynnwys. Serch hynny, gall y graddau o ymyrraeth â phreifatrwydd fod yn uwch os yw'r data cyfathrebu a geisir yn ymwneud â pherson sy'n aelod o broffesiwn sy'n ymdrin â gwybodaeth freintiedig neu gyfrinachol (megis meddyg, cyfreithiwr, newyddiadurwr, AS, AC neu weinidog crefydd.) Gall hefyd fod yn bosibl casglu mater o sensitifrwydd o'r ffaith bod rhywun yn dod i gysylltiad rheolaidd â chyfreithiwr neu newyddiadurwr er enghraifft.

Dydy sefyllfaoedd o'r fath ddim yn atal cais rhag cael ei wneud. Serch hynny, dylid rhoi ystyriaeth arbennig i angenrheidrwydd a chymesuredd, gan dynnu sylw at unrhyw amgylchiadau o'r fath a allai arwain at ymyrraeth anghyffredin neu dorri hawliau a rhyddid, yn enwedig preifatrwydd a lle gallai fod yn gysylltiedig, ryddid mynegiant. Pan fydd cais yn cael ei wneud am ddata cyfathrebu gweithiwr proffesiynol o'r fath, rhaid i ymgeiswyr nodi hynny'n glir. Bydd angen nodi hyn hefyd ar y cofnodion canolog sy'n cael eu cadw gan y Cyngor a'i amlygu yn arolygiad nesaf y Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau (IOCCO).

Gall materion sy'n ymwneud â thorri'r hawl i ryddid mynegiant godi pan fydd cais yn cael ei wneud am ddata cyfathrebu newyddiadurwr. Mae diddordeb cryf gan y cyhoedd ym mharoddrwydd ffynonellau i ddarparu gwybodaeth i newyddiadurwyr yn ddiennw. Os bwriad cais yw pennu ffynhonnell gwybodaeth newyddiadurol, rhaid bod gofyniad blaenaf iddo fod er budd y cyhoedd. Hyd yn oed os nad y bwriad yw pennu ffynhonnell gwybodaeth newyddiadurol, mae risg o hyd o ymyrraeth eilaidd â ffynonellau newyddiadurol cyfreithlon, felly dylid cymryd gofal arbennig i ystyried yn briodol y budd i'r cyhoedd o ran a oes modd cyfiawnhau'r ymyrraeth. Dylai hyn gynnwys tynnu sylw at a oes tystiolaeth amgen yn bodoli neu a oes dulliau amgen o gael gafael ar yr wybodaeth. Dim ond trwy ddefnyddio gorchmynion cyflwyno o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE), sydd ddim ar gael i'r Cyngor, y mae modd ceisio canfod ffynonellau newyddiadurwyr. Dydy goruchwyliaeth farnwrol ddim yn berthnasol pan fydd ceisiadau yn cael eu gwneud ar gyfer data cyfathrebu'r rhai y gwyddys eu bod yn newyddiadurwyr, ond lle nad yw'r cais i bennu ffynhonnell gwybodaeth newyddiadurol, er enghraifft, lle mae'r newyddiadurwr yn ddiodeffwr trosedd neu os yw'n cael ei amau ei fod yn cyflawni trosedd nad yw'n gysylltiedig â'i alwedigaeth.

Mae data cyfathrebu a all gael eu hystyried yn ddata sy'n pennu ffynonellau newyddiadurol yn cynnwys data sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Cyfeiriadau cyfathrebu newyddiadurwyr;
- Cyfeiriadau cyfathrebu'r bobl hynny yr amheuir eu bod yn ffynhonnell;
- Cyfeiriadau cyfathrebu personau yr amheuir eu bod yn gweithredu fel cyfryngwyr rhwng y newyddiadurwr a'r ffynhonnell dan amheuaeth.

Ffonau Symudol Talu Ymlaen Llaw

Gall gwiriadau tanysgrifwyr ar rai rhifau ffôn symudol ddatgelu bod y ffôn yn ffôn symudol talu ymlaen llaw anghofrestredig gan fod llawer o droseddwyr yn defnyddio'r mathau yma o ffonau i

osgoi cael eu canfod. Serch hynny, er mwyn casglu rhagor o wybodaeth, gall yr Ymgeisydd sy'n gwneud cais ofyn am ragor o wybodaeth am y tanysgrifiwr o dan adran 21(4)(c) gan gynnwys manylion talu ymlaen llaw, dull talu, y cyfrif banc sydd wedi'i ddefnyddio neu nodiadau cwsmeriaid. Yn ei gais gwreiddiol, dylai'r Ymgeisydd amlinellu'r wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen os darganfyddir mai ffôn talu ymlaen llaw ydyw, er mwyn caniatáu ehangu cwmpas y data sy'n cael eu casglu. Byddai modd gofyn am yr wybodaeth yma mewn dau gam: yn gyntaf trwy ofyn am fanylion y tanysgrifwyr ac yna, os yw hwn yn ffôn talu ymlaen llaw heb ei gofrestru, trwy ofyn am yr wybodaeth ychwanegol. Os bydd y Person Dynodedig yn cymeradwyo'r cais, mae Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau (IOCCO) yn argymhell y dylai gymeradwyo'r defnydd o awdurdodiadau yn hytrach na defnyddio hysbysiadau, lle dylai'r awdurdodiad nodi bod y Swyddog Un Man Cyswllt wedi'i awdurdodi i ymgymryd ag unrhyw weithrediad i gaffael gwybodaeth am y defnyddiwr sydd wedi'i gynnwys yn Adran 21(4)(c). O dan y ddeddfwriaeth, does dim angen i'r Person Dynodedig roi awdurdodiad er mwyn i'r Swyddog Un Man Cyswllt ei gyhoeddi. Yna bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn cyflwyno awdurdodiad priodol ar y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu perthnasol. Os oes angen rhagor o wybodaeth, bydd angen i'r Swyddog Un Man Cyswllt gyflwyno awdurdodiad arall ar y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu sy'n gofyn am yr wybodaeth ychwanegol. Dylid nodi y bydd pob awdurdodiad yn cynnwys dyddiad cymeradwyo'r cais gwreiddiol gan y Person Dynodedig. Mae'r broses symleiddio yma'n fwy effeithlon na defnyddio hysbysiadau, oherwydd fel arall byddai angen cyfeirio cais am bob hysbysiad ychwanegol at y Person Dynodedig.

Yna, bydd modd datblygu'r wybodaeth sydd wedi'i derbyn i geisio cael rhagor o wybodaeth am ddefnyddiwr y ffôn. Darparwyr Atebion megis EasyPay, EPay ac ati, yw'r trydydd partïon sy'n ymwneud â thrafod credyd sy'n cael ei roi ar ffôn symudol. Os yw Darparwr Atebion yn cael rhif y ffôn symudol, a dyddiad a rhif y trafodyn, yn aml, bydd modd iddo ddarparu'r dull talu a lleoliad y taliad. Nid Darparwyr Gwasanaeth Cyfathrebu mo Darparwyr Atebion ac felly does dim modd rhoi rhybudd iddyn nhw o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio; yn hytrach, bydd modd gwneud cais am y data dan y Ddeddf Diogelu Data.

Canllawiau ar lenwi'r ffurflenni

Mae'r Swyddfa Gartref wedi darparu canllawiau ar y ffurflenni sef "Canllawiau ar gyfer gosodiad ffurflen gais a chyfarwyddyd Pennod II ar gyfer Ymgeiswyr a Phersonau Dynodedig sy'n ystyried rheidrwydd a chymesuredd". Cafodd y canllawiau eu paratoi ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a'r Grŵp Cyfathrebu Data ac ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau. Mae'r ddogfen lawn ar gael gan y Swyddog Un Man Cyswllt ond dyma'r darnau perthnasol ohoni. (Mae rhai o'r darnau wedi cael eu disodli gan rannau o ddiwygiadau'r cod ymarfer). Yn ogystal â chanllawiau'r Swyddfa Gartref mae'r adran yma hefyd yn cynnwys arweiniad o'r cod ymarfer.

Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Ddata Cyfathrebu

Mae modd cyflwyno cais, sylwadau gan Swyddog Un Man Cyswllt, ystyriaethau'r Person Dynodedig ac awdurdodiadau a hysbysiadau yn ysgrifenedig ("papur") neu'n electronig ("cronfa ddata").

Gall fod yn briodol i'r adran "data cyfathrebu" gynnwys "blychau testun" i alluogi'r ymgeisydd i nodi'r canlynol:

- Rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, ac ati;
- Lle bo'n briodol, y cyfnodau (amser a dyddiad) rhwng y set ddata sy'n ofynnol;
- Math o ddata sydd ei angen, er enghraifft manylion tanysgrifio, galwadau sy'n mynd allan, galwadau sy'n dod i mewn.

Gall cais gynnwys sawl cais am "setiau data" amrywiol sy'n ymwneud ag ymchwiliad neu weithrediad penodol. Serch hynny, dylid ystyried sut y gallai hyn effeithio ar effeithlonrwydd

prosesau'r awdurdod cyhoeddus ac effaith rheoli materion datgelu cyn, yn ystod ac ar ôl prawf trosedd.

Canllawiau ar Angenrheidrwydd

Er mwyn cyfiawnhau bod angen y cais, mae angen i'r ymgeisydd ystyried o leiaf dri phrif bwynt:

- Y **digwyddiad** dan sylw, megis trosedd neu berson ar goll sy'n agored i niwed;
- Y **person**, er enghraifft, rhywun sydd o dan amheuaeth, tyst neu berson ar goll a sut maen nhw'n gysylltiedig â'r digwyddiad;
- Y data **cyfathrebu**, megis rhif ffôn neu gyfeiriad y Darparwr Rhynggrwyd, a sut mae'r data yma'n gysylltiedig â'r person a'r digwyddiad.

Yn ei hanfod, dylai'r angenrheidrwydd fod yn esboniad byr o'r canlynol: a) y digwyddiad, b) y person ac c) y data cyfathrebu, a sut mae'r tair elfen yma'n cysylltu â'i gilydd. Rhaid i'r cais sefydlu cysylltiad rhwng y tair agwedd er mwyn gallu dangos bod caffael data cyfathrebu yn angenrheidiol ar gyfer y diben statudol sydd wedi'i nodi.

Dydy angenrheidrwydd ddim yn cynnwys esbonio "yr hyn fydd wedi'i gyflawni drwy gaffael y data" neu "pam y gofynnwyd am gyfnodau penodol o amser" – mae'r agweddau yma'n berthnasol i gymesuredd a dylid eu cynnwys yn yr adran berthnasol er mwyn atal ailadrodd.

Canllawiau ar Gymesuredd

Dylai ymgeiswyr gynnwys amlinelliad o sut y bydd cael y data o fudd i'r ymchwiliad neu'r gweithrediad. Os ceisir mwy nag un eitem o ddata, dylid egluro perthnasedd y data ychwanegol.

Dylai'r amlinelliad yma gynnwys eglurhad o sut y bodd modd cyfiawnhau lefel yr ymyrraeth wrth ystyried y budd y bydd y data'n ei roi i'r ymchwiliad. Dylai'r cyfiawnhad yma gynnwys cadarnhad bod ymchwiliadau perthnasol llai ymwithiol eisoes wedi cael eu cynnal lle bo'n bosibl. Er enghraifft, bydd modd cael manylion tanysgrifiwr rhif ffôn o lyfr ffôn neu o ffynhonnell arall sydd ar gael i'r cyhoedd.

Rhaid egluro perthnasedd unrhyw gyfnodau amser y gofynnwyd amdany'n nhw, gan amlinellu sut mae'r cyfnodau yma'n gymesur â'r digwyddiad dan sylw.

Y ddau gwestiwn sylfaenol yw:

- "Beth ydych chi'n chwilio amdano yn y data sydd i'w caffael?"
- "Os yw'r data'n cynnwys yr hyn rydych chi'n chwilio amdano, beth fydd eich cam nesaf?"

Bydd eglurhad o sut y bydd data cyfathrebu yn cael eu defnyddio, ar ôl eu caffael, a sut y bydd o fudd i'r ymchwiliad neu'r gweithrediad, yn galluogi'r Ymgeisydd i nodi sail y cymesuredd.

Dylai eglurhad o gymesuredd y cais gynnwys ystyriaeth o hawliau (yn enwedig i breifatrwydd ac, mewn achosion perthnasol, ryddid mynegiant) yr unigolyn a chydbwysu'r hawliau yma yn erbyn y budd i'r ymchwiliad.

Dylai archwiliad o gymesuredd y cais hefyd gynnwys ystyried canlyniadau anfwriadol posibl a, lle bo'n berthnasol, dylid nodi hyn. Canlyniadau anfwriadol cais yw canlyniadau nad ydyn nhw wedi'u bwriadu gan y cais. Mae canlyniadau anfwriadol yn fwy tebygol mewn ceisiadau am ddata'r proffesiynau hynny sydd â dyletswyddau cyfrinachedd. Er enghraifft, os yw newyddiadurwr yn ddioddefwr trosedd, gall ceisiadau am ddata defnydd gwasanaeth sy'n gysylltiedig â rhif ffôn y newyddiadurwr hwnnw fel rhan o'r ymchwiliad troseddol hefyd ddychwelyd rhai rhifau ffôn o ffynonellau'r newyddiadurwr hwnnw, gydag effaith anfwriadol ar ryddid mynegiant. Gall cais o'r fath fod yn angenrheidiol ac yn gymesur o hyd ond dylid ystyried y risg o ganlyniadau anfwriadol.

Canllawiau ar Ymyrraeth Eilaidd

Mae ystyried ymyrraeth eilaidd yn rhan o'r ystyriaethau cymesuredd ac yn dod yn fwyfwy perthnasol wrth wneud cais am ddata traffig neu ddata defnydd gwasanaeth. Dylai ceisiadau gynnwys manylion o ba ymyrraeth eilaidd a all ddigwydd a sut y mae'r cyfnodau amser y gofynnwyd amdany'n nhw yn effeithio ar yr ymyrraeth eilaidd. Pan nad oes unrhyw risgiau ymyrraeth eilaidd ystyrlon, er enghraifft, wrth wneud cais am fanylion tanysgrifiwr y person dan sylw, dylid nodi absenoldeb ymyrraeth eilaidd.

Y cwestiwn i'w ofyn yw "A fydd y set ddata i'w chaffael yn arwain at ymyrraeth eilaidd â phobl sydd ddim yn rhan o'r ymholiad y mae'r data'n cael eu sicrhau ar ei gyfer?" Er enghraifft, bydd bilio manwl ar gartref teulu'r testun yn debygol o gynnwys galwadau sydd wedi'u gwneud gan aelodau'r teulu.

Dylai ymgeiswyr ddim ysgrifennu am "gamgymeriad" posibl neu ddamcaniaethol ac os na all yr Ymgeisydd adnabod unrhyw ymyrraeth eilaidd ystyrlon, dylai'r ffactor hwnnw gael ei gofnodi yn y cais, hynny yw, "dim ymyrraeth eilaidd ystyrlon".

Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar amserlen

Mae cwblhau'r adran yma'n cynorthwyo'r Swyddog Un Man Cyswllt i flaenoriaethu'r cais

Mae gan y Grŵp Cyfathrebu Data System Raddio gytunedig sy'n dangos i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu unrhyw amserlenni brys, sy'n cyd-fynd â'r Broses Lafar Frys (gweler troednodyn 40 a pharagraff 3.56 o'r cod)

Swyddogaeth y Swyddog Un Man Cyswllt

Rhaid i'r Swyddfa Gartref achredu pob Swyddog Un Man Cyswllt, ac mae hyn yn cynnwys ymgymryd â hyfforddiant cydnabyddedig, llwyddo mewn arholiad a chael Rhif Adnabod Personol. Mae'r Swyddog Un Man Cyswllt yn sicrhau mai dim ond ceisiadau ymarferol a chyfreithlon am ddata cyfathrebu sy'n cael eu cyflwyno.

Rhaid sianelu pob hysbysiad ac awdurdodiad ar gyfer data cyfathrebu drwy'r Swyddog Un Man Cyswllt. Mae hyn er mwyn darparu trefn effeithlon gan y bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn delio â'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn rheolaidd.

Bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn derbyn y ffurflen gais a bydd yn cynghori Ymgeiswyr a Phersonau Dynodedig ar y canlynol:

- A yw'r ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir ac a ydyn nhw'n gyfreithlon;
- A yw'r data y gofynnwyd amdany'n nhw yn dod o dan Adran 21(4) (a), (b) neu (c) o'r ddeddf;
- A yw cael mynediad i'r data cyfathrebu yn rhesymol ymarferol i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu neu a yw'r data penodol sydd eu hangen wedi'i gysylltu'n annatod â data eraill;
- A yw'n debygol y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl o gyflwyno'r cais;
- Materion ymarferol cael mynediad at wahanol fathau o ddata cyfathrebu gan wahanol weithredwyr telathrebu neu bost;
- A yw data sy'n cael eu datgelu gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn bodloni gofynion yr hysbysiad.

Bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn asesu'r Ffurflen Gais am Ddata Cyfathrebu ac yn cofnodi'r canlynol arni:

- Os nad yw'r cais yn rhesymol ymarferol i'r Swyddog Un Man Cyswllt, y rheswm pam mae hyn yn wir;
- A yw'r data yn dod o dan Adran 21(4) (a), (b) neu (c) o'r ddeddf;
- A yw hysbysiad neu awdurdodiad yn briodol;
- Unrhyw oblygiadau cost anffafriol i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu neu'r awdurdod lleol;
- Manylion unrhyw ddata sy'n debygol o gael eu caffael sy'n ychwanegol at y data y gofynnwyd amdany'n nhw;
- Unrhyw ffactorau eraill y dylai'r Person Dynodedig fod yn effro iddyn nhw;
- Disgrifiad o'r data sydd i'w caffael a, lle bo'n berthnasol, nodyn ynglŷn ag a oes angen unrhyw ddata hanesyddol neu ddata ar gyfer y dyfodol a'r cyfnodau amser a geisir;
- Adnabod y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu perthnasol.

Bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn cyhoeddi Rhif Cyfeirnod Unigryw ar gyfer y ffurflen. Bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn drafftio'r hysbysiad neu'r awdurdodiad perthnasol i'w gyflwyno i'r Person Dynodedig er mwyn iddo ei gymeradwyo. Bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn cadw cofnod cronolegol o brosesu'r cais gan gynnwys unrhyw gysylltiadau y mae ef neu hi wedi'u gwneud â'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu. Gall ef neu hi hefyd roi gradd blaenoriaeth i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu gan ddibynnu ar ba mor frys yw'r cais.

Mae'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn cyflogi nifer o Swyddogion Un Man Cyswllt ac mae modd cysylltu â nhw ar 01273 291660 er mwyn trafod unrhyw faterion.

Os oes angen i'r Cyngor ofyn am wybodaeth gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu nad yw'n cynnwys data cyfathrebu, mae'n arfer da defnyddio Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol i gydgyssylltu â'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu ar geisiadau o'r fath.

Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar ystyriaethau'r Swyddog Un Man Cyswllt

Os yw'r cais yn cael ei gofnodi mewn cronfa ddata (neu mewn fformat electronig arall), ac mae modd ei briodoli i'r ymgeisydd, does dim angen llofnod.

Mae modd cyflwyno cais, sylwadau gan y Swyddog Un Man Cyswllt, ystyriaethau'r Person Dynodedig, awdurdodiadau a hysbysiadau un ai'n ysgrifenedig ("papur") neu'n electronig ("cronfa ddata").

Mae'r cwestiwn "Disgrifiwch y data cyfathrebu sydd i'w caffael gan nodi, lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw ddyddiad / cyfnod o amser hanesyddol neu yn y dyfodol a geisir", yn briodol lle gall fod angen i'r Swyddog Un Man Cyswllt fireinio'r data cyfathrebu y mae'r Ymgeisydd yn gofyn amdany'n nhw, er enghraifft, galwadau sy'n cael eu derbyn i rif ffôn a ddelir gan Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebu nad yw'n cadw set ddata a all ddatgelu galwadau o'r fath. Byddai'r Swyddog Un Man Cyswllt yn nodi y bydd angen ymgymryd â nifer o awdurdodiadau a hysbysiadau gyda Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu a all ddatgelu galwadau sy'n cychwyn o'r rhwydweithiau i'r rhif ffôn dan sylw.

Gall y Person Dynodedig, ar ôl ystyried sylwadau'r Swyddog Un Man Cyswllt, benderfynu nad oes modd cyfiawnhau caffael y data oherwydd yr adnoddau sylweddol sy'n ofynnol gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu i adfer a datgelu'r data neu bydd yn anymarferol i'r awdurdod cyhoeddus ddadansoddi'r data.

Bydd hefyd yn briodol i'r Swyddog Un Man Cyswllt roi sylwadau lle bydd y data a geisir gan yr Ymgeisydd yn golygu ei fod yn caffael data ychwanegol, yn benodol lle nad yw'n ymarferol i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu olygu neu hidlo'r data, er enghraifft, pan fydd galwad benodol sy'n cael ei derbyn mewn set ddata sy'n cynnwys galwadau sy'n mynd allan ac yn cynnwys safle'r

gell. Os yw'r Person Dynodedig yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur ar gyfer caffael galwad benodol sydd wedi'i derbyn, yna rhaid i'r awdurdodiad neu'r hysbysiad gynnwys yn benodol gaffael yr alwad sy'n mynd allan, galwadau sy'n cael eu derbyn a safle'r gell.

Cymeradwyo gan y Person Dynodedig

Yna bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn cyflwyno'r Ffurflen Gais ar gyfer Data Cyfathrebu, ynghyd â'r hysbysiad/hysbysiadau drafft perthnasol neu'r awdurdodiad/awdurdodiadau perthnasol, i Berson Dynodedig, a fydd yn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd y cais yn cael ei gymeradwyo ai peidio. Y Personau Dynodedig fydd y swyddogion hynny (sydd ar radd addas) sydd ar hyn o bryd yn Swyddogion Awdurdodedig o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, fel eu bod eisoes yn gallu cymeradwyo gwylidwriaeth neu geisiadau Cynnal a Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Dydy hi ddim yn bosibl i unigolyn fod yn Berson Dynodedig ac Ymgeisydd mewn unrhyw achos.

Rhaid i Bersonau Dynodedig feddu ar wybodaeth ymarferol gyfredol am egwyddorion hawliau dynol, yn benodol y rhai o angenrheidrwydd a chymesuredd, a sut maen nhw'n berthnasol i gaffael data cyfathrebu.

Rhaid i Bersonau Dynodedig fod yn annibynnol ar y gweithrediad neu'r ymchwiliad. Mewn amgylchiadau lle nad oes modd i'r Cyngor alw ar wasanaethau Person Dynodedig annibynnol, rhaid i'r Uwch Swyddog Cyfrifol roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau am yr amgylchiadau a'r rhesymau. Gallai hyn gynnwys gwasanaeth ymchwilio arbenigol bach o fewn y Cyngor. Rhaid i'r cyfiawnhad dros ddefnyddio Person Dynodedig nad yw'n annibynnol a'u hymwneud â'r ymchwiliad fod yn eglur yn eu hystyriaethau cofnodedig. Rhaid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau am unrhyw ddefnydd o Bersonau Dynodedig nad ydyn nhw'n annibynnol yn ystod unrhyw arolygiadau.

Bydd y Person Dynodedig yn ystyried y ffurflen ac yna'n llenwi rhan y Person Dynodedig o'r Ffurflen Gais i ddatgan a yw'n caniatáu neu'n gwrthod y cais. Ar y ffurflen, rhaid i'r Person Dynodedig gofnodi'r canlynol:

- Pam mae ef/hi o'r farn bod caffael y data cyfathrebu yn angenrheidiol;
- Pam mae ef/hi o'r farn bod yr ymddygiad sy'n gysylltiedig â chaffael y data cyfathrebu yn gymesur;
- Os yw cael gaffael ar ddata cyfathrebu yn cynnwys gradd ystyrion o ymyrraeth eilaidd, pam mae ef/hi o'r farn bod y cais yn gymesur o hyd.

Wrth ystyried cymesuredd, dylai'r Person Dynodedig roi ystyriaeth arbennig i ganlyniadau anfwriadol.

Rhaid i benderfyniad y Person Dynodedig fod yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno iddo/iddi yn y cais. Os bydd y cais yn cael ei gymeradwyo, gall y Person Dynodedig awdurdodi mynediad at ddata cyfathrebu drwy un o 2 ddull gwahanol:

- Trwy hysbysiad o dan A 22(4) o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, sef hysbysiad sy'n cael ei roi i'r gweithredwr post neu delathrebu ac sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r gweithredwr hwnnw gasglu neu adalw'r data a'u rhoi i'r Awdurdod a gyflwynodd yr hysbysiad.
- Trwy awdurdodiad o dan A 22(3) o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, sy'n caniatáu i'r Awdurdod gasglu ac adfer y data ei hun. (Mae'n annhebygol iawn y byddwn ni'n defnyddio hyn, gan mai dim ond os nad yw'r gweithredwr yn gallu cydymffurfio â rhybudd y bwriedir ei ddefnyddio, neu os bydd yr Awdurdod yn adfer y data gan ddefnyddio system ar-lein.)

Dylai'r Person Dynodedig nodi'r cyfnod amser byrraf ar gyfer y data sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r amcan y mae'r data yn cael eu ceisio ar ei gyfer.

Bydd yr Unigolyn Dynodedig yn cymeradwyo'r hysbysiad drafft neu'r awdurdodiad gyda'r dyddiad, ac os yw'n briodol, yr amser, pan fydd yn rhoi'r hysbysiad neu'r awdurdodiad. Dyma'r adeg pan fydd y Person Dynodedig yn cymeradwyo'r cais.

Os yw'r Person Dynodedig yn dymuno cael unrhyw gyngor, bydd modd iddyn nhw ei gael gan Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol.

Ar adeg rhoi hysbysiad neu awdurdodiad i gael gwybodaeth benodol am ddefnydd gwasanaeth, gall y Person Dynodedig hefyd awdurdodi caffael gwybodaeth tanysgrifwyr benodol ganlyniadol sy'n gysylltiedig â'r data defnydd gwasanaeth sydd i'w sicrhau. Rhaid i hyn fod i'r graddau sy'n angenrheidiol ac yn gymesur ar y pryd, er mwyn nodi â phwy y mae person wedi bod yn cyfathrebu.

Os caiff y cais ei wrthod naill ai gan y Swyddog Un Man Cyswllt neu'r Person Dynodedig, bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn cadw'r ffurflen ac yn hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r rhesymau dros ei wrthod. Bydd Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn gwneud hynny drwy'r wefan.

Unwaith y bydd y cais wedi'i awdurdodi gan y Swyddog Awdurdodi, bydd angen i'r awdurdodiad gael cymeradwyaeth farnwrol gan ynad (gweler isod).

Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar ystyriaethau'r Person Dynodedig

Rhaid i'r Person Dynodedig allu dangos ei fod ef / ei bod hi wedi deall yr angen am y cais ac wedi ystyried yr angen a'r cymesuredd i safon a fydd yn gwrthsefyll craffu.

Dylai'r Person Dynodedig deilwra eu sylwadau i gais penodol gan fod hyn yn dangos bod y cais wedi'i ystyried yn briodol orau.

Ar ôl i'r Person Dynodedig ddarllen y cais, os yw o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi bodloni'r holl ofynion, yna dylai gofnodi'r ffaith honno. Mewn achosion o'r fath dylid cofnodi nodyn syml gan y Person Dynodedig.

Efallai y bydd amgylchiadau lle bydd y Person Dynodedig, ar ôl darllen yr achos a nodwyd gan yr Ymgeisydd ac ystyriaethau'r Swyddog Un Man Cyswllt, am wneud sylwadau pam ei bod yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur cael y data er gwaethaf caffael data gormodol.

Os nad yw'r Person Dynodedig o'r farn bod yr achos dros gael y data wedi'i fodloni, dylid gwrthod y cais a'i gyfeirio'n ôl at y Swyddog Un Man Cyswllt a'r Ymgeisydd.

Rhaid i hysbysiad gynnwys cyfeirnod unigryw sydd hefyd yn nodi'r awdurdod cyhoeddus. Gall hyn fod yn god neu'n dalfyriad.

Os yw'r Person Dynodedig yn cofnodi ei ystyriaethau mewn cronfa ddata (neu fformat electronig arall) ac mae modd ei briodoli i'r Person Dynodedig, fydd dim angen llofnod.

Hysbysiadau ac awdurdodiadau

Bydd Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn rhoi rhybudd neu awdurdodiad drafft i'r Person Dynodedig. Pan fydd angen rhoi hysbysiad, bydd Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn paratoi'r hysbysiad ar ran y Person Dynodedig. Dylai pob hysbysiad ac awdurdodiad gyfeirio at ddata sy'n ymwneud â dyddiad neu gyfnod penodol o amser. Os "cyfredol" sy'n cael ei nodi ar gyfer y dyddiad, dylai'r data gael eu darparu gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu ar ddyddiad yr hysbysiad. Dylai'r hysbysiad roi digon o wybodaeth i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu i'w alluogi i gydymffurfio. Does dim angen paratoi hysbysiad ar wahân ar gyfer pob cyfeiriad cyfathrebu, pan fydd y cyfeiriadau yma i gyd yn ymwneud â'r un Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu.

Yna, bydd y Swyddog Un Man Cyswllt perthnasol yn cyflwyno'r hysbysiad i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu. Bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn rhoi Cyfeirnod Unigryw ar gyfer yr hysbysiad sy'n ei groesgyfeirio at y cais a gafodd ei gymeradwyo. Mae'r Swyddog Un Man Cyswllt yn gyfrifol am yr holl gysylltiadau rhwng yr Awdurdod a'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu.

Mae awdurdodiadau yn cael eu defnyddio'n bennaf wrth gyflawni'r broses symleiddio ar gyfer ffonau 'talau ymlaen llaw'. Bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn paratoi'r awdurdodiad ar ran y Person Dynodedig. Bydd modd i Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol gaffael y data cyfathrebu o gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu. Yn gyfreithiol, does dim angen cyflwyno'r awdurdodiad i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn gofyn am sicrwydd bod yr ymddygiad sydd wedi'i gyflawni yn gyfreithlon. Bydd modd rhoi'r sicrwydd hwnnw drwy ddatgelu manylion yr awdurdodiad neu drwy ddarparu'r awdurdodiad gwirioneddol.

Ar ôl caffael y data, bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn rhoi'r data i'r Ymgeisydd, ond gall y Swyddog Un Man Cyswllt hidlo unrhyw wybodaeth ddiangen sydd wedi'i darparu gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu. Bydd y Swyddog Un Man Cyswllt yn cadw'r data gwreiddiol sydd wedi'u caffael gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu (sy'n cael ei alw'n "gopi euraid") ac yn rhoi copi ohono i'r Ymgeisydd. Mae modd rhoi'r copi euraid yma i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod modd cael datganiad tyst mewn amgylchiadau lle nad yw'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu bellach yn cadw ei ddata gwreiddiol. Dylai'r Ymgeisydd gadw'r data y mae'n eu derbyn mewn modd diogel, er mwyn cydymffurfio â gofynion diogelu data.

Rhaid i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu gydymffurfio â gofynion hysbysiadau, cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol iddo wneud hynny. O dan A24 o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio mae gan y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu hawl i adennill y costau rhesymol o wneud "datgeliad amserol" o'r fath ddata. Fel arfer, dylai'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu ddatgelu'r data cyfathrebu gofynnol cyn pen 10 diwrnod gwaith o gyflwyno'r rhybudd iddo, ond mewn amgylchiadau penodol lle na fyddai hyn yn bosibl, gall y Person Dynodedig bennu cyfnod hirach o hyd at fis.

Bydd pob hysbysiad ac awdurdodiad yn ddilys am fis yn unig, ond gall y Person Dynodedig eu hadnewyddu am gyfnodau pellach o fis, ar unrhyw adeg o fewn oes cyfredol yr hysbysiad neu'r awdurdodiad. Dylai hyn gael ei nodi gan yr Ymgeisydd mewn atodiad i'r cais gwreiddiol.

Os bydd yr angen am y data cyfathrebu yn dod i ben neu dydy eu caffael ddim bellach yn gymesur cyn i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebiadau eu rhoi, rhaid i'r Person Dynodedig ganslo'r hysbysiad drwy ddefnyddio ffurflen ganslo, a fydd wedyn yn cael ei hanfon at y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu. Yn yr un modd, rhaid i awdurdodiad gael ei dynnu'n ôl, ac, os yw'n briodol, dylai'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu gael ei hysbysu o'r diddymiad yma. Yn system y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol, mae hyn yn cael ei wneud drwy'r wefan. Serch hynny, mae'r hysbysiadau (a'r awdurdodiadau) yn dod i ben pan fydd y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu yn darparu'r data y gofynnwyd amdano, felly fel arfer does dim angen llenwi ffurflen ganslo.

Bydd yr holl ddogfennau gwreiddiol yn cael eu cadw gan y Swyddog Arweiniol ar gyfer y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

Cymeradwyaeth Farnwrol

Unwaith y bydd y cais ar gyfer caffael a defnyddio data cyfathrebu wedi'i awdurdodi gan y Swyddog Awdurdodi, bydd angen i'r awdurdodiad neu'r hysbysiad gael Cymeradwyaeth Farnwrol gan ynad. Bydd angen i'r Ymgeisydd lawrlwytho'r fersiwn awdurdodedig o'r ffurflen gais o wefan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ynghyd â'r ffurflenni cymeradwyo barnwrol a mynd â'r ffurflenni yma i'r llys ynadon.

Bydd angen i'r Ymgeisydd gysylltu â'r llys ynadon i drefnu apwyntiad i gyflwyno'r cais. Bydd yr Ymgeisydd yn llenwi'r Ffurflen Gais Cymeradwyaeth Farnwrol (Ffurflen JA1) ac yn paratoi Ffurflen Gorchymyn Cymeradwyaeth Farnwrol (Ffurflen JA2) i'w llofnodi gan Ynad Heddwch. Bydd y ffurflen gais yn cynnwys crynodeb byr o amgylchiadau'r achos.

Bydd y swyddog yn rhoi copi o'r awdurdodiad neu'r hysbysiad Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio gwreiddiol a'r dogfennau ategol sy'n amlinellu'r achos i'r Ynad Heddwch. Mae hyn yn sail i'r cais i'r Ynad Heddwch a dylai gynnwys yr holl wybodaeth y bydd raid dibynnu arni. Dylid dangos yr awdurdodiad Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio gwreiddiol i'r Ynad Heddwch ond yr awdurdod lleol fydd yn ei gadw. Efallai y bydd y llys yn dymuno cymryd copi. Bydd y ffurflen gais a'r gorchymyn barnwrol (wedi'u cwblhau'n rhannol) yn cael eu rhoi i'r Ynad Heddwch.

Bydd y gwrandawriad yn breifat a bydd yn cael ei glywed gan Ynad Heddwch unigol. Bydd yr Ynad Heddwch yn darllen ac yn ystyried awdurdodiad neu hysbysiad y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio a'r ffurflenni cais a gorchymyn barnwrol. Bydd modd i'r Ynad Heddwch ofyn cwestiynau er mwyn cael eglurhad ar faterion neu gael sicrwydd ychwanegol ar faterion penodol.

Bydd yr Ynad Heddwch yn ystyried a yw'n fodlon bod sail resymol dros fod o'r farn bod yr awdurdodiad yn angenrheidiol ac yn gymesur adeg ei awdurdodi neu ei adnewyddu. Bydd hefyd yn ystyried a oes sail resymol o hyd.

Rhaid i'r achos gael ei gyflwyno drwy'r ffurflenni a'r papurau ategol yn unig. O ran y Swyddog, dydy darparu tystiolaeth lafar ddim yn ddigon lle dydy hyn ddim yn cael ei hadlewyrchu na'i chefnogi yn y dogfennau wedi'u darparu. Mae modd i'r Ynad Heddwch nodi ar y ffurflen unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae wedi'i derbyn yn ystod y gwrandawriad ond ddylai gwybodaeth sy'n sylfaenol i'r achos ddim cael ei chyflwyno yn y modd yma.

Os oes angen rhagor o wybodaeth er mwyn pennu a yw'r awdurdodiad neu'r hysbysiad wedi bodloni'r meini prawf, yna bydd yr Ynad Heddwch yn gwrthod yr awdurdodiad neu'r hysbysiad. Os caiff cais ei wrthod, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a fyddai modd iddo gyflwyno cais arall, e.e. os oedd gwybodaeth i gefnogi'r cais a oedd ar gael i'r Awdurdod Lleol, ond a oedd heb ei chynnwys yn y dogfennau a gafodd eu darparu yn y gwrandawriad.

Bydd yr Ynad Heddwch yn cofnodi ei benderfyniad/phenderfyniad ar y Ffurflen Gorchymyn Barnwrol. Hwn fydd cofnod swyddogol penderfyniad yr Ynad Heddwch. Bydd staff y llys yn cadw copi o'r awdurdodiad Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio a'r ffurflenni cais a gorchymyn barnwrol. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei chadw'n ddiogel.

Dyma'r penderfyniadau y mae modd i'r Ynad Heddwch eu gwneud:

1. Cymeradwyo neu adnewyddu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad;
2. Gwrthod cymeradwyo neu adnewyddu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad;
3. Gwrthod cymeradwyo neu adnewyddu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad, a'i ddileu.

Os yw'r Ynad Heddwch yn gwrthod cymeradwyo neu adnewyddu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad, fydd e ddim yn dod i rym a fydd dim modd i'r awdurdod lleol ddefnyddio'r dull yn yr achos yna.

Os caiff cais ei wrthod, mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn dymuno ystyried y rhesymau dros ei wrthod. Er enghraifft, byddai modd cywiro gwall technegol ar y ffurflen heb i'r Cyngor fynd drwy'r broses awdurdodi fewnol eto. Yna, mae'n bosibl y bydd y swyddog yn dymuno ceisio am gymeradwyaeth farnwrol eto ar ôl cymryd y camau yna. Os yw'r Ynad Heddwch yn penderfynu dileu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad gwreiddiol, rhaid i'r llys beidio ag arfer ei bŵer i ddiddymu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad yna oni bai bod yr Ymgeisydd wedi cael o leiaf 2 ddiwrnod busnes o'r dyddiad gwrthod i gyflwyno sylwadau.

Bydd angen i'r Cyngor gael cymeradwyaeth farnwrol ar gyfer pob awdurdodiad neu hysbysiad Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio cychwynnol yn ogystal ag ar gyfer pob adnewyddiad a bydd angen i swyddogion gadw copi o'r ffurflenni cais barnwrol a gorchymyn ar ôl iddyn nhw gael eu llofnodi gan yr Ynad Heddwch. Does dim rhaid i'r Ynad Heddwch ystyried naill ai achosion o ddiddymu nac adolygiadau mewnol.

Ar achlysuron prin, efallai y bydd angen i swyddogion gael mynediad at Ynad Heddwch y tu allan i oriau gwaith, felly bydd angen i'r swyddog wneud y trefniadau angenrheidiol gyda staff y llys. Bydd angen i'r swyddog ddarparu dwy ffurflen gais a dau orchymyn barnwrol (wedi'u llenwi'n rhannol) fel bod modd i'r Ynad Heddwch gadw un copi. Dylai'r swyddog roi copi o'r ffurflen gais a'r gorchymyn barnwrol wedi'u llofnodi i'r llys y diwrnod gwaith nesaf.

Pan fo achos o adnewyddu wedi'i amserlennu i ddigwydd y tu allan i oriau'r llys, e.e. yn ystod cyfnod gwyliau, cyfrifoldeb y swyddog ymchwilio yw sicrhau bod hyn yn digwydd cyn y terfyn amser. Mae gweithdrefnau y tu allan i oriau arferol ar gyfer argyfyngau a ddylen nhw ddim cael eu defnyddio os yw achos o adnewyddu ddim wedi'i brosesu mewn pryd.

Os bydd cymeradwyaeth farnwrol yn cael ei rhoi, bydd angen i'r swyddog roi'r ffurflen gymeradwyaeth farnwrol i Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol.

Gwallau

Os digwydd unrhyw wall, wrth roi hysbysiad neu awdurdodiad neu o ganlyniad i unrhyw weithredu awdurdodedig neu unrhyw weithredu yr ymgwymerwyd ag ef i gydymffurfio â hysbysiad, dylid cadw cofnod. Dim ond ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu y gall gwall ddigwydd, felly os caiff ei ddarganfod cyn hynny, fydd e ddim yn cyfrif yn swyddogol fel gwall.

Mae 2 fath o wall sef gwallau adroddadwy a gwallau cofnodadwy.

- Gwallau adroddadwy yw rhai lle mae data cyfathrebu yn cael eu caffael yn anghywir ac yn yr achos yma, rhaid cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau, oherwydd gallai'r math yma o ddigwyddiad arwain at ganlyniadau sylweddol i'r unigolyn y mae ei fanylion wedi'u datgelu'n anghywir;
- Gwallau cofnodadwy yw rhai lle mae gwall wedi digwydd ond wedi ei adnabod cyn i'r data cyfathrebu gael eu caffael. Rhaid i'r Awdurdod gadw cofnod o'r digwyddiadau yma, ond does dim rhaid cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd.

Dyma rai enghreifftiau o Wallau Adroddadwy:

- Hysbysiad yn cael ei wneud at ddiben, neu ar gyfer math o ddata na all yr awdurdod cyhoeddu ei geisio;
- Gwall dynol, fel trosi gwybodaeth yn anghywir lle mae data cyfathrebu yn cael eu caffael;
- Datgelu'r wybodaeth anghywir gan Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebu wrth gydymffurfio â hysbysiad;

- Datgelu neu gaffael mwy o ddata na'r hyn sy'n ofynnol.

Dyma rai enghreifftiau o Wallau Cofnodadwy:

- Hysbysiad sy'n amhosibl i Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebu gydymffurfio ag ef;
- Methu ag adolygu gwybodaeth sy'n cael ei dal eisoes, e.e. ceisio data sydd wedi'u caffael eisoes neu a gafwyd ar gyfer yr un ymchwiliad, neu ddata y gwyddys nad yw'r gofyniad i'w cael yn ddilys mwyach;
- Hysbysiadau'n cael eu hanfon at y Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu anghywir;
- Gwall dynol, megis trosi gwybodaeth yn anghywir lle nad yw data cyfathrebu yn cael eu caffael;
- Hysbysiadau'n cael eu hanfon at Ddarparwyr Gwasanaeth Cyfathrebu nad oedden nhw wedi'u paratoi gan y Person Dynodedig a awdurdododd y cais.

Lle mae rhif ffôn wedi'i drosglwyddo i Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebu arall yna, dydy hyn ddim yn gyfystyr â gwall. Lle caiff gormod o ddata eu datgelu, os nad yw'r deunydd yn berthnasol i'r ymchwiliad, dylid ei ddinistrio unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Comisiynydd. Dylai hyn gynnwys dinistrio copïau sydd wedi'u cynnwys yn atodiadau mewn negeseuon e-bost. Os y bwriad yw defnyddio'r deunydd gormodol (ar ôl ei adolygu), rhaid i'r Ymgeisydd wneud atodiad i'r cais gwreiddiol i nodi'r rhesymau dros fod angen defnyddio'r data gormodol yma. Yna bydd y Person Dynodedig yn penderfynu a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur i'r data gormodol gael eu defnyddio yn yr ymchwiliad. Rhaid cadw at ofynion y Ddeddf Diogelu Data a glynu wrth ei hegwyddorion mewn perthynas â data gormodol.

Rhaid rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog Cyfrifol am unrhyw wall adroddadwy ac yna i'r Comisiynydd cyn pen 5 diwrnod gwaith. Rhaid i'r adroddiad gynnwys cyfeirnod unigryw'r hysbysiad a manylion y gwall, ynghyd ag eglurhad o sut y digwyddodd y gwall, gan nodi a ddigwyddodd unrhyw ymyrraeth eilaidd anfwriadol a'r camau a fydd yn cael eu cymryd i atal hyn rhag digwydd eto. Dylid defnyddio Ffurflen CD5 (Adrodd Gwall gan Swyddog Un Man Cyswllt Achrededig) at y diben yma.

Os yw'r adroddiad yn ymwneud â gwall a wnaed gan Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebu, rhaid i'r Awdurdod ei adrodd o hyd, ond dylai hefyd hysbysu'r Darparwr Gwasanaeth Cyfathrebu er mwyn ei alluogi i ymchwilio i'r achos.

Rhaid i'r cofnodion sy'n cael eu cadw ar gyfer gwallau cofnodadwy gynnwys manylion y gwall, esbonio sut y digwyddodd y gwall a nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i atal hyn rhag digwydd eto. Rhaid i'r cofnodion yma fod ar gael i'w harchwilio gan arolygwyr Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau a rhaid iddyn nhw gael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol.

Yr achos mwyaf cyffredin o wallau yw trosi rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost a chyfeiriadau darparwyr rhyngwyd yn anghywir. Yn y mwyafrif helaeth o achosion mae'r cyfeiriadau yma'n deillio o gyfeiriadau sydd ar gael i'r Ymgeisydd ar ffurf electronig. Felly mae'n ofynnol i bob Ymgeisydd gopïo cyfeiriadau cyfathrebu yn electronig i geisiadau pan fydd y ffynhonnell ar ffurf electronig (er enghraifft adroddiadau fforensig sy'n ymwneud â ffonau symudol neu gofnodion data galwadau ac ati). Rhaid gwirio cyfeiriadau cyfathrebu a gafwyd o ffynonellau eraill yn briodol i leihau'r cwmpas ar gyfer gwall.

Mewn amgylchiadau lle bernir bod gwall adroddadwy o natur ddifrifol, gall Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau ymchwilio i'r amgylchiadau a arweiniodd at y gwall ac asesu effaith yr ymyrraeth ar hawliau'r person sydd wedi cael ei effeithio. Gall Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau hysbysu'r unigolyn sydd wedi cael ei effeithio, a all wneud cwyn i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio. Mae gan y Tribiwnlys bwerau llawn i ymchwilio a phenderfynu ar unrhyw achos o fewn ei awdurdodaeth sy'n cynnwys caffael a datgelu data cyfathrebu.

Uwch Swyddog Cyfrifol

Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol yn gyfrifol am y canlynol:

- Uniondeb y prosesau o gaffael data cyfathrebu;
- Cydymffurfio â'r ddeddf a'r cod ymarfer;
- Goruchwyllo adrodd am wallau i Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau;
- Ymgysylltu ag arolygwyr Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau pan fyddan nhw'n cynnal arolygiadau;
- Goruchwyllo unrhyw gynlluniau gweithredu ar ôl yr arolygiad sy'n cael eu rhoi ar waith.

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol o ran caffael data cyfathrebu.

Cofnodion Canolog

Rhaid i'r Cyngor gadw copïau o bob cais, awdurdodiad, hysbysiad, awdurdodiad sydd wedi'i dynnu'n ôl a phob achos o ddiddymu hysbysiad, wedi'u croesgyfeirio yn erbyn pob dogfen gysylltiedig. Caiff hyn ei gydlynu gan Swyddog Arweiniol y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, sydd ar hyn o bryd yn Rheolwr Safonau Masnach. Pan fydd system y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn cael ei defnyddio, fydd copïau o'r hysbysiadau a'r awdurdodiadau ddim yn cael eu rhoi i'r Person Dynodedig fel mater o drefn, ond bydd angen argraffu copïau o'r ffurflenni cais ar-lein wedi'u llenwi a'u rhoi i'r Swyddog Arweiniol. Bydd modd i arolygwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebu gael copïau o bob un o'r dogfennau yma gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol.

Bydd gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol hawl i weld yr holl ffurflenni yma yn ôl yr angen.

Rhaid i'r Awdurdod hefyd gadw cofnod o'r canlynol:

- Nifer y ceisiadau sydd wedi'u cyflwyno i Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol;
- Nifer y ceisiadau a gyflwynwyd i Swyddog Un Man Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol a gafodd eu hatgyfeirio yn ôl i'r ymgeisydd i'w diwygio neu a gafodd eu gwrthod gan y Swyddog Un Man Cyswllt;
- Y rheswm dros unrhyw newidiadau sy'n ofynnol neu gais yn cael ei wrthod gan y Swyddog Un Man Cyswllt;
- Nifer y ceisiadau a gafodd eu cymeradwyo gan y Person Dynodedig;
- Nifer y ceisiadau a gafodd eu hatgyfeirio yn ôl i'r ymgeisydd neu'u gwrthod gan y Person Dynodedig;
- Y rheswm dros unrhyw achosion o atgyfeirio yn ôl neu wrthodiadau;
- Nifer yr hysbysiadau sy'n gofyn am ddatgelu data cyfathrebu (heb gynnwys ceisiadau llafar brys);
- Nifer yr awdurdodiadau ar gyfer gweithredu i gaffael data cyfathrebu (heb gynnwys ceisiadau llafar brys);
- Sawl gwaith mae cais brys yn cael ei gymeradwyo ar lafar;
- Sawl gwaith mae hysbysiad/awdurdodiad brys yn cael ei roi ar lafar. (D.S. Dydy'r Cyngor ddim yn defnyddio hysbysiadau neu awdurdodiadau brys);
- Lefel blaenoriaeth y cais ar gyfer data cyfathrebu. (Bydd y Cyngor dim ond yn defnyddio materion Gradd 3 sy'n fater o drefn, ond lle bo'n briodol, bydd yn cynnwys materion penodol neu sy'n sensitif o ran amser, er enghraifft, mechniaeth, dyddiadau llys ac ati);
- A yw unrhyw ran o'r cais yn ymwneud â pherson sy'n aelod o broffesiwn sy'n ymdrin â gwybodaeth freintiedig neu gyfrinachol (megis meddyg, cyfreithiwr, newyddiadurwr, AS neu weinidog crefydd (ac os felly, pa broffesiwn));

- Nifer yr eitemau o ddata cyfathrebu a geisir ar gyfer pob hysbysiad neu awdurdodiad sydd wedi'i roi.

Ar gyfer pob eitem o ddata cyfathrebu sydd wedi'i chynnwys mewn hysbysiad neu awdurdodiad, rhaid i'r Awdurdod gadw cofnodion o'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- Cyfeirnod Unigryw'r cais, hysbysiad a/neu awdurdodiad;
- Y diben statudol am bob eitem o ddata cyfathrebu y gofynnir amdani. (Dim ond y diben 'atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn' y gall y Cyngor ei ddefnyddio);
- Y math o drosedd sy'n cael ei ymchwilio;
- A yw'r data cyfathrebu yn wybodaeth defnydd gwasanaeth [gwybodaeth Adran 21(4)(b)] neu wybodaeth danysgrifiwr [gwybodaeth Adran 21(4)(c)];
- Y math o bob eitem o ddata cyfathrebu sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad neu'r awdurdodiad (megis data ffôn llinell sefydlog, data ffôn symudol neu ddata rhyngrwyd);
- A yw pob eitem o ddata cyfathrebu yn ymwneud â dioddefwr, tyst, achwynydd, unigolyn dan amheuaeth, perthynas agosaf, person agored i niwed neu berson arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad;
- Oedran pob eitem o ddata cyfathrebu. (Os yw'r data'n cynnwys mwy nag un diwrnod, yr oedran fydd dyddiad hynaf y data a geisir);
- Lle gwybodaeth defnyddio gwasanaeth am nifer y dyddiau o ddata yw'r data a geisir;
- Darparwr y Gwasanaeth Cyfathrebu y mae'r data'n cael ei gaffael ganddo.

Bydd angen anfon yr holl gofnodion yma at Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau yn ôl y gofyn.

Bydd y Swyddog Arweiniol yn cadw cronfa ddata o bob cais, ynghyd â manylion unrhyw hysbysiadau ac awdurdodiadau p'un a ydyn nhw'n cael eu cyhoeddi gan yr Awdurdod neu'n cael eu cyhoeddi gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ar ein rhan. Bydd y gronfa ddata yma'n cynnwys cofnodion o unrhyw wallau sydd wedi digwydd. Gall y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ddarparu gwybodaeth ystadegol ar gais am nifer yr hysbysiadau neu awdurdodiadau y mae wedi'u cyhoeddi ar ran y Cyngor yn ystod cyfnod penodol o amser.

Cod Ymarfer

Rhaid i'r Cyngor a'r unigolion hynny sy'n gweithredu dan y Ddeddf roi sylw i'r Codau Ymarfer ar Gaffael a Datgelu Data Cyfathrebu sydd wedi'u cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref dan y Ddeddf. Bydd modd i bob Person Dynodedig ac unrhyw bersonau eraill sy'n ymwneud â chaffael data cyfathrebu gael copi o'r cod yma.

Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau

Mae arfer y pwerau a'r dyletswyddau sy'n ymwneud â data cyfathrebu yn cael ai adolygu'n gyson gan arolygwyr sy'n gweithio i Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau dan reolaeth y Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau yn nodi, os byddwn i'n derbyn cais Rhyddid Gwybodaeth am gopi o'n hadroddiad arolygu, y dylen ni roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau, a fydd yn rhoi i ni fersiwn o'r adroddiad sydd wedi'i golygu'n addas i'w chyflwyno i'r ceisydd. Ddylai unrhyw ddatgeliad ddim digwydd nes yr ymgynghorwyd â Swyddfa'r Comisiynydd Codi Cyfathrebiadau.

Manylion yr Uwch Swyddog Cyfrifol	Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol	Rhif ffôn
Manylion y Person Dynodedig	Enw'r Person Dynodedig	Rhif ffôn
Y dyddiad a'r amser y cwblhawyd yr adroddiad gan y Swyddog Un Man Cyswllt	Dyddiad	Amser

Cais am gymeradwyaeth farnwrol i awdurdodi caffael neu ddatgelu data cyfathrebu, defnyddio ffynhonnell cudd-wybodaeth ddynol neu gynnal gwyliadwriaeth gyfeiriedig. Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 – adrannau 23A, 23B, 32A, 32B.

FFURFLEN JA1

Awdurdod lleol: **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
 Adran awdurdod lleol:
 Trosedd dan ymchwiliad:
 Cyfeiriad yr eiddo neu hunaniaeth y testun:

Techneg gudd a ofynnwyd amdani: (ticiwch un a nodi'r manylion)

Data Cyfathrebu
Ffynhonnell Cudd-wybodaeth Ddynol
Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

Crynodeb o'r manylion

Nodyn: Dylid darllen y cais yma ar y cyd â'r awdurdodiad/cais neu hysbysiad Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio sydd ynghlwm.

Swyddog Ymchwilio:

Swyddog Awdurdodi / Person
 Dynodedig:

Swyddog/Swyddogion sy'n ymddangos gerbron yr Ynad Heddwch:

Cyfeiriad yr adran sy'n ymgeisio:

Rhif ffôn cyswllt:

Cyfeiriad e-bost cyswllt (dewisol):

Cyfeirnod awdurdod lleol:

Nifer y tudalennau:

Hysbysiad a wnaed ar gais ar gyfer cymeradwyaeth farnwrol i gaffael neu ddatgelu data cyfathrebu, defnyddio ffynhonnell cudd-wybodaeth ddynol neu i gynnal gwylidwraeth gyfeiriedig. Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 – adrannau 23A, 23B, 32A, 32B.

FFURFLEN JA2

Llys ynadon:

Ar ôl ystyried y cais, rwyf (ticiwch un):

- yn fodlon bod sail resymol dros fod o'r farn bod gofynion y Ddeddf wedi'u bodloni ac yn parhau i fod wedi'u bodloni, a bod yr amodau perthnasol wedi'u bodloni ac felly rwy'n cymeradwyo rhoi neu adnewyddu'r awdurdodiad/hysbysiad
- yn gwrthod cymeradwyo neu adnewyddu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad
- yn gwrthod cymeradwyo neu adnewyddu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad, ac yn ei ddileu

Nodiadau:

Rhesymau:

Llofnod:

Dyddiad:

Amser:

Enw llawn:

Cyfeiriad y llys ynadon: